

Iechyd a Diogelwch



Adroddiad Blynyddol
2009

MYNEGAI

Tudalen

ADRODDIAD CRYNODOL

1

Adroddiadau unigol:

A1.	Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch	6
A2.	Pwyllgorau a grwpiau tasg	11
A3.	Adroddiad ar salwch staff	12
A4.	Adroddiad ar iechyd staff	15
A5.	Adroddiad ar ddamweiniau a digwyddiadau	20
A6.	Adroddiad ar larymau tân a thanau	24
A7.	Adroddiad ar hyfforddiant staff	27

ADRODDIAD CRYNODOL

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch 2009. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu negeseuon allweddol a gwybodaeth ystadegol ynghylch elfennau o iechyd a diogelwch, ac mae'r atodiadau'n rhoi rhagor o fanylion ar agweddau ar iechyd a diogelwch.

BETH DDIGWYDDODD YN 2009?

Cafwyd rhai llwyddiannau nodedig yn ystod y flwyddyn. Yn benodol, cafwyd cydnabyddiaeth ffurfiol o berfformiad y Brifysgol o ran rheoli iechyd a'i rôl yn cefnogi cyflogwyr lleol, ar ffurf gwobrau cenedlaethol. Hefyd, ac o bosib mai dyma'r cyflawniad mwyaf nodedig, derbyniodd broses iechyd a diogelwch y Brifysgol ganmoliaeth arbennig gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Lord McKenzie o Luton.

"Mae'n galonogol iawn i weld bod hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol yn greiddiol i waith eich adran gefnogol."

Yr Arglwydd McKenzie


Yn ei araith (yn ystod cynhadledd a drefnwyd gan y Brifysgol oedd yn cynnwys cynulleidfaoedd o dros 100 o gyflogwyr lleol a swyddogion y Brifysgol) tanlinellodd yr Arglwydd McKenzie *"hanes o ragoriaeth"* y Brifysgol a'i *"hagwedd o annog gwelliannau parhaus ym mhob maes yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles"*.

O ran meysydd perfformiad eraill, sefydlogwyd a datblygwyd prosesau cynllunio i'r strategaeth iechyd a diogelwch yn 2009.

Damweiniau a digwyddiadau

Erys ystadegau damweiniau'r Brifysgol yn weddol sefydlog. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y 'damweiniau adroddadwy' yn 2009. Er nad oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol, mae'r cynnydd hwn mewn damweiniau adroddadwy yn peri peth anesmwythyd a phroses o fonitro tueddiadau ar waith ar hyn o bryd.

Fel ag a ddynodwyd, arhosodd cyfanswm y damweiniau a digwyddiadau yn weddol gyson gyda 84 yn 2009, o'i gymharu â 87 yn 2008; er bod nifer y staff wedi gostwng. Fel y dengys y graff isod, ers 1998 mae Bangor wedi dangos tueddiad arwyddocaol at i lawr yn nifer y damweiniau fesul 1,000 staff; gan berfformio mymryn yn well na chyfartaledd y sector:



Ceir rhagor o wybodaeth ar ddamweiniau a digwyddiadau yn **Atodiad A5**.

Hyrwyddo Iechyd Staff

Ymgwymerwyd ag ymarferiad i feincnodi system iechyd y Brifysgol ac arweiniodd hyn at gydnabyddiaeth genedlaethol trwy ennill "Best Health Promotion" a "Overall Winner" yng Ngwobrwyon Iechyd Galwedigaethol 2009.

Roedd y panel dyfarnu wedi'i blesio'n arw gyda pherfformiad a gweithgaredd y Brifysgol ym maes hyrwyddo iechyd a lles.

"Roedd ansawdd cyflwyniad Bangor ymhell ar y blaen i'r ymgeisyddion eraill... Dangoswyd arweinyddiaeth ragorol. Cynhaliwyd asesiadau iechyd ar ysmegu, alcohol, deiet, ymarfer corff, poen cefn ac ymlacio meddyliol..."

Dr Charlie Vivian,
Cyfarwyddwr Ansawdd NHS Plus a Beirniad

Canmoliaeth uchel yn wir, sy'n adlewyrchu'r gwaith caled a wnaed yn arwain a hyrwyddo iechyd yn y gwaith.

Parheir i ddatblygu strategaeth a chyfeiriad cefnogi iechyd ac fe'i gwelir fel maes allweddol yng ngweithrediad y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.

Proffil Iechyd Staff

Mae'r broses o asesu iechyd staff yn parhau'n boblogaidd, a manteisiodd 215 o aelodau staff ychwanegol ar y gwasanaeth yn 2009. Hyd yma mae dros 400 aelod o staff wedi manteisio ar y gwasanaeth a gynigir am ddim, gan helpu i ddatblygu proffil iechyd defnyddiol.

Mae'r asesiadau iechyd i staff a gweithgareddau a digwyddiadau pwrpasol yn datblygu'n faes diddorol a hanfodol bwysig o ran iechyd a diogelwch. Mae poblogrwydd y mentrau i gefnogi a hyrwyddo iechyd yn arwydd o'r broses sydd ar waith i ddynodi anghenion staff a theilwra gweithgareddau ar gyfer ateb y rheiny.

Un maes cefnogi iechyd sydd heb ei ddatblygu fel ag a obeithiwyd yn ystod 2009 yw hyrwyddiadau iechyd ar y cyd rhwng staff a myfyrwyr. Gobeithio y gellir datblygu'r elfen hon yn 2010 trwy weithio'n agosach gyda'r Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr sydd newydd ei phenodi a chyd-weithio gydag Is-lywydd Chwaraeon a Byw'n Iach Undeb y Myfyrwyr, sydd hefyd yn swydd newydd.

Ceir rhagor o wybodaeth ar iechyd y staff yn **Atodiad A4**.

Gwaith Elusennol

Bu hyrwyddo iechyd yn llesol i'n staff a bu hefyd yn gyfrwng i godi arian i Dŷ Gobaith. Casglwyd £671 trwy'r her colli pwysau a £785 trwy'r daith gerdded i ben yr Wyddfa.

Cyflwynwyd £4,456 i'r elusen yn 2009 o ganlyniad i'r mentrau iechyd nodedig, ynghyd â'r arian a godwyd trwy Loteri'r Staff. Gobeithio y gallwn guro'r swm hwn yn 2010.


Absenoldeb Salwch Staff

Cofnodwyd cyfradd absenoldeb staff yn 2009 o tua **6.24¹** diwrnod fesul pob gweithiwr amser llawn y flwyddyn. Mae hyn o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn y sector o 6.2 diwrnod

Mae'r gyfradd absenoldeb salwch o 6.24 yn cyfateb i 2.39% o'r amser ar gael yn cael ei golli oherwydd absenoldeb salwch.

Sickness Absence Comparator Rate


(days per member of staff [FTE] per year)



Ni adroddwyd am **yr un** diwrnod o salwch ymhlith 72% o staff y Brifysgol.

Y 5 Prif Achos Absenoldeb Tymor

Hir Ardystiedig



¹ Mae 6.24 diwrnod yn gynnwys ar y 4.5 diwrnod a adroddwyd yn 2008, ac mae hyn yn adlewyrchu'r dull amcanyfrif a ddefnyddir bellach, sydd yn unol ag arferion adrodd cenedlaethol. Mae data 2009 wedi'i seilio ar 260.715 diwrnod gwaith fesul 1598.67 FTE; roedd y data blaenorol wedi'i seilio ar amcanyfrif bras o staff mewn blwyddyn.

Yn 2009 bu gostyngiad mewn absenoldeb tymor hir o ganlyniad i gyflyrau cyhyr-ysgerbydol o tua 17% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Arhosodd absenoldeb am resymau seicolegol ardystiedig yn weddol sefydlog; fodd bynnag, cynyddodd nifer yr achosion hunan ardystiedig yn sylweddol.

Roedd cyfanswm yr absenoldebau wedi'u hardystio'n feddygol yn 2009 yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Mewn 80% o'r achosion absenoldeb tymor hir a ddatryswyd yn 2009, gwelwyd dychweliadau llwyddiannus i'r gwaith.

Daeth un cyflwr meddygol "adroddadwy" i'r fei yn 2009, sef achos o fys gwyn dirgrynol gan un o'r gweithwyr llaw. Ymchwiliwyd i'r achos gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

Ceir rhagor o wybodaeth am salwch ymysg y staff, ei achosiaeth a'r ystod oedran yn **Atodiad A3**.

Larymau Tân a Thanau

Gostyngodd nifer y troeon y bu i larymau tân ganu o 239 yn 2008 i 211 yn 2009, sy'n galonogol iawn wedi dwy flynedd o gynnydd yn nifer yr achosion.

O'i gymharu â'r sector AU yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn parhau i berfformio'n arbennig o dda, gyda hanner y nifer cyfartalog o larymau ffug.

Yn y neuaddau preswyl, roedd gan y Brifysgol gyfradd o 45.1 o larymau tân yn canu am bob 1000 ystafell gwely, sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd o 87 yn y sector AU yn genedlaethol.

Fodd bynnag, cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu galw i'r Brifysgol 197 o weithiau. Mae'r ffigwr hwn yn well na'r ffigwr o 217 gwaith yn 2008, ond mae'n parhau'n ffigwr sy'n peri cryn ofid. Yn anffodus, digwyddodd 6 tân go iawn yn y Brifysgol yn 2009 er na chafodd neb ei anafu.

Er bod y gostyngiad cyffredinol yn nifer y troeon y bu i larymau tân ganu yn dangos bod yr ymdrechion sydd wedi'u gwneud i wella'r systemau tân ac addysgu myfyrwyr am ddiogelwch tân yn cael effaith gadarnhaol, gan wella'r berthynas gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yr un

pryd, mae angen mwy o ymdrech yn y maes hwn. Mae angen rhagor o ymchwiliadau'n benodol i'r cynnydd ymddangosiadol yn nifer y troeon y mae larymau tân yn canu yn yr adeiladau academiaidd a chefnogi, lle mae'r duedd wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2006.

Ceir rhagor o wybodaeth am danau a chanu larymau tân yn **Atodiad A6**.

Hawliadau Yswiriant

Yn ôl y Swyddfa Yswiriant, cytunwyd ar 9 o hawliadau am iawndal yn ystod 2009. Mae'r rhain wedi eu rhannu fel a ganlyn:

Hawliadau Anafiadau Atebolrwydd Cyflogwyr:	4
Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus:	2
Hawliadau Teithio (salwch):	3

Mae'n fwriad gennym i gynnwys graff tueddiadau mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o'r hawliadau.

Hyfforddiant Staff, Galluoedd a Datblygiad

Yn 2009, bu'r gweithgareddau hyfforddi iechyd a diogelwch yn fodd o hwyluso ystod fwy eang o fodiwlau hyfforddi gorfodol a gwirfoddol ar gyfer staff a myfyrwyr y Brifysgol. Cafodd nifer o'r modiwlau hyfforddi eu teilwra er mwyn ateb anghenion y cyfranogwyr yn well ac fe ychwanegwyd modiwlau newydd at y rhaglen. Mae lefelau presenoldeb yn y gweithgareddau hyn wedi bod yn gyson trwy'r flwyddyn a'r adborth cyffredinol am y cwrs yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod y flwyddyn, bu dros 570 aelod staff yn dilyn cwrs hyfforddi oedd wedi ei ddarparu, ei drefnu neu ei hwyluso gan Wasanaethau Iechyd a Diogelwch.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyfforddiant iechyd a diogelwch yn **Atodiad A7**.

Buddsoddiad Ariannol

Yn 2009, dyrannwyd dros hanner miliwn o bunnoedd er mwyn gwella diogelwch ar draws yr ystâd. Ymhlith y meysydd risg a gafodd eu

targedu'n benodol o ran gwelliant oedd disgyn o uchder, gwelliannau i'r stôr cemegau canolog, rheoli asbestos a gwasanaethau nwy.

Er y rhagwelir y bydd 2010/11 yn arwain at fwy o bwysau ariannol, ni chredir yr effeithir yn negyddol ar y broses o ariannu iechyd a diogelwch ar yr ystâd yn y dyfodol agos gan fod y Brifysgol yn parhau i fuddsoddi mewn rheoli risg a lleihau risg.

Gwaith Trydedd Genhadaeth

Ym mis Medi 2009, trefnodd Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch Gynhadledd undydd "Materion Iechyd a Diogelwch" ar ran Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru. Hwylusir y grŵp gan yr adran er mwyn cefnogi cyflogwyr lleol i hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da yn y man gwaith.

Agorwyd y gynhadledd gan yr Arglwydd McKenzie o Luton (Y Gweinidog Iechyd a Diogelwch yn yr Adran Gwaith a Phensiynau).



Cydnabwyd y gwaith caled ynghlwm wrth baratoi cynhadledd lwyddiannus a chynnal "sgyrsiau" trwy'r flwyddyn, trwy dderbyn dwy Wobr Rhagoriaeth Alan Butler (Grwpiau Diogelwch y DU) ar gyfer 2009:

- **Enillydd** – Rhaglen Gyffredinol Orau
- **Cymeradwyaeth Uchel** - Seminar/Gweithdy gorau


Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn Nhŷ'r Arglwyddi dan ofal yr Arglwydd Brougham & Vaux, Llywydd Grwpiau Diogelwch y DU.

Ffliw'r Moch

Gyda dyfodiad Ffliw'r Moch, esgorwyd ar bryder ledled y byd ynghylch dyfodiad pandemig a allai effeithio nid yn unig ar unigolion, ond ar sefydliadau hefyd, a hynny'n amharu ar fusnesau

gyda salwch ymhlith staff, neu farwolaethau hyd yn oed.

Er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn barod i reoli colledion fel hyn, sefydlwyd Grŵp



Cynllunio Argyfwng Ffliw'r Moch. Trwy gyfrwng y grŵp hwn, dosbarthwyd gwybodaeth a chyngor arbenigol i staff a myfyrwyr, ac fe roddwyd trefniadau wrth gefn ar waith er mwyn sicrhau y gallai gweithgareddau'r Brifysgol barhau pe bai pandemig yn digwydd. Er enghraifft, cyflwynwyd rheoliadau ymarferol megis golchi dwylo gyda diheintydd.

Yn dilyn dyfodiad yr haint, cynhaliwyd adolygiad o broses rheoli Ffliw'r Moch yn y Brifysgol. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gyda staff a myfyrwyr yn datgan eu bod o'r farn bod y Brifysgol wedi delio â'r sefyllfa yn effeithiol. Yn wir, roedd 96% o'r rhai a ymatebodd yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r wybodaeth a'r gefnogaeth a gynigwyd gan y Brifysgol.

Roedd yr adolygiad hefyd yn dangos na chafwyd cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd salwch cyffredinol yn ystod cyfnod Ffliw'r Moch, o'i gymharu â'r un cyfnod mewn blynyddoedd a fu.

Wrth ddilyn yr un dulliau a mynd i'r afael â'r mân argymhellion a wnaed gan yr adolygiad, rhagwelir y bydd y Brifysgol mewn sefyllfa gryfach fyth i ddelio â sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol. Bu'r profiad dysgu hwn yn un gwerthfawr iawn.

Heriau ar y Gweill

Gyda'r posibilrwydd o bwysau ariannol ychwanegol ar y Brifysgol, bydd rhaid i Wasanaethau Iechyd a Diogelwch weithredu mewn modd cynyddol greadigol wrth ddynodi arbedion cost-effeithiol er mwyn gosod a chynnal safonau iechyd a diogelwch da a chefnogi ymchwil a dysgu. Mae hyn yn hynod bwysig o gofio am benodiad arolygydd newydd i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n frwdfrydig iawn ac sydd eisoes wedi gofyn am gynllun gweithredu dros amser gan y Brifysgol.

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn adlewyrchu'r gwaith strategol a'r gwaith lleihau risg sydd eisoes wedi'i gynllunio a bydd yn ceisio datblygu'r agenda o ran gwella'r arweinyddiaeth a'r diwylliant ym mhob maes yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles.

Bydd y cynllun gweithredu hefyd yn gosod pwyslais cadarn ar fesur perfformiad, boed hynny trwy archwiliadau, adolygiadau neu arolygon, gan geisio integreiddio mesuriadau perfformiad i arferion rheoli iechyd a diogelwch.

Bydd amcanion strategol iechyd a diogelwch y Brifysgol yn parhau'n sail ar gyfer y system iechyd a diogelwch sy'n cynnwys y cydsyniad cyfreithiol, lleihau risg, dynodi a gweithredu arferion da, cefnogi iechyd yr unigolyn ac effeithio'n gadarnhaol ar "ddiwylliant" oll yn yrwyr creiddiol.

Crynodeb

I grynhoi, mae adroddiad 2009 yn dangos bod y Brifysgol yn parhau i wella ei pherfformiad yn raddol mewn sawl maes iechyd a diogelwch. Ar sawl ystyr, mae'r gwelliannau hyn yn deillio o'r broses ragweithiol y mae'r Brifysgol wedi'i mabwysiadu wrth ddynodi gwendidau (agored i risg) ac yna mynd i'r afael â'r rhain mewn modd bwriadus, yn hytrach na disgwyl i rywbeth fynd o'i le ac ymateb i hynny.

Trwy well ddealltwriaeth o wybodaeth ystadegol megis proffiliau iechyd, achosion absenoldeb salwch, tueddiadau o ran damweiniau a digwyddiadau, bydd yn haws i'r Brifysgol allu rhagweld anawsterau posib a fyddai wedi'u hesgeuluso fel arall.

DIWEDD YR ADRODDIAD CRYNODOL

A. 1 GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, prif bwrpas y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yw sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r gyfraith a sicrhau na chaiff neb ei niweidio neu ei wneud yn sâl o ganlyniad i weithgareddau'r Brifysgol. Yr adran yw adran iechyd a diogelwch y Brifysgol a chanddi hi mae'r cyfrifoldeb o gefnogi'r Brifysgol, ei cholegau a'i hysgolion ym mhob agwedd ar gydymffurfio ag iechyd a diogelwch, ei wella a'i hybu.

Yn ogystal â hyn, ac yn unol â pholisi, strategaeth ac ethos y Brifysgol, mae'r adran yn ceisio gwella a chefnogi iechyd, diogelwch a lles unigolion a chefnogi perfformiad cyffredinol y sefydliad.

Caiff gwaith yr adran ei arwain gan y strategaeth iechyd a diogelwch, a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2007; gofynion deddfwriaeth; a pholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol ac asesiad risg iechyd a diogelwch corfforaethol y Brifysgol.

GWAITH ADWEITHIOL

Oherwydd dull mwy rhagweithiol yr adran o ymdrin ag iechyd a diogelwch, bu ychydig o leihad yn y gwaith adweithiol a wneir, sy'n rhoi mwy o amser i'r adran weithio gyda'r colegau a'r adrannau. Ond mae gwaith adweithiol yn parhau i fod yn gyfran sylweddol o'r llwyth gwaith dyddiol ac wythnosol.

Derbynnir y ffaith y bydd gwaith adweithiol yn rhan annatod o waith gwasanaethau iechyd a diogelwch gan fod pethau'n mynd o le o bryd i'w gilydd, mae problemau'n codi ac mae angen ateb ymholiadau. Gobeithir y gwnaiff cynllunio a dyrannu adnoddau'n well arwain at wneud gwaith adweithiol yn beth gymharol brin yn hytrach na'r norm.

GWAITH RHAGWEITHIOL

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, gellir cynllunio cyfran gynyddol o waith yr adran. Caiff projectau mawr eu cynllunio a'u hamserlennu gyda'r cysyniad o gefnogi, gwella a mesur yn rhan greiddiol ohonynt. Mae archwilio, monitro, mesur a chynhyrchu gwybodaeth yn elfennau allweddol o ddull rhagweithiol, wrth i'r pedair elfen geisio ymdrin â materion cyn i broblemau godi.

ADOLYGIAD HUNANWERTHUSO ADRANNAU / COLEGAU

Defnyddiwyd ffurflen hunanwerthuso iechyd a diogelwch i ddarparu dangosydd gwaelodlin i'r 6 choleg a'r 14 adran wasanaeth. Lluniwyd y ffurflen werthuso gan ddilyn cydrannau'r *BS/OSHAS 18001 Standard Management System Elements* a gwneud cais am gofnodion a dogfennau ategol.

Cyflwynwyd y canlyniadau cyffredinol a'r adroddiad i'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch cyn ei drafod gyda phob coleg ac adran a phenderfynu ar unrhyw gamau gweithredu. Cyflwynwyd yr adroddiad hefyd i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

Trafodwyd canlyniadau'r hunanwerthuso'n unigol gydag uwch reolwyr y colegau a'r adrannau a/neu'r cydlynwyr iechyd a diogelwch er mwyn diffinio cynllun gwella.

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd archwiliadau iechyd a diogelwch gyda phob adran wasanaeth a lluniwyd cynlluniau gweithredu ar eu cyfer.

CYNLLUN Y PECYN ARCHWILIO, YMGYNGHORIAD A DATBLYGIAD

Cynlluniwyd system rheoli iechyd a diogelwch newydd i bob coleg/adran, gan nad oedd HASMAP (pecyn archwilio a ddatblygwyd i'r sector prifysgolion) yn cael ei ystyried yn addas i brifysgol gyda strwythur colegau/adranau. Mae'r pecyn wedi ei gynllunio yn unol â safonau OSHAS 18001 ac fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â darparwyr archwiliadau eraill ac arweinwyr tîm archwilio ym Mhrifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r colegau a'r undebau llafur ar y pecyn ac fe'i cymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch. Cytunwyd ar amserlen archwilio mewn egwyddor (yn amodol ar gyfuno colegau) ac mae'r peilot cyntaf wedi ei gwblhau gyda'r Coleg Gwyddorau Naturiol.

Dyma'r amserlen archwilio newydd:

- Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith.
- Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol.
- Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.
- Coleg y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad.

Rhagwelir y bydd y rhaglen adolygu archwiliadau cychwynnol y colegau wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2011.

Ar y cyd ag amserlen archwilio'r colegau, bwriedir cynnal archwiliadau yn yr adranau gwasanaeth, yn arbennig yn ystod cyfnodau pan fyddai'n anaddas archwilio colegau oherwydd gwyliau, dechrau'r tymor, arholiadau, etc.

ARCHWILIADAU AC ADOLYGIADAU GYDA THEMÂU

Mae archwiliadau ac adolygiadau gyda themâu (pwnc benodol) yn parhau i fod yn rhan greiddiol o waith yr adran. Mae'r archwiliadau a'r adolygiadau hyn yn caniatáu i'r Brifysgol asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol, rhai a bennir gan ddeddfwriaeth ac arfer da fel rheol, ac maent yn ffordd dda iawn o fesur y lefel o 'gydymffurfio' mewn meysydd risg allweddol.

YMBELYDREDD, PELYDR-X

Er bod adolygiad o offer cynhyrchu pelydr-x a gynhaliwyd yn 2008 wedi casglu bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, y gred oedd y gellir, gydag ychydig o welliannau, ei ddefnyddio'n 'dda' neu gydag 'arfer gorau' yn hytrach na chydymffurfio'n gyfreithiol yn unig. Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys newid trefn y labordy DEXA, adolygu'r ddogfennaeth a'r drefn yn ymwneud â chymeradwyaeth foesegol, defnyddio'r cyfarpar, awdurdodi gweithredwyr a chydysniad cleifion a chynnal mesuriadau gwasgariad na wnaed o'r blaen.

Mae'r newidiadau hyn wedi gwella'r ffordd y caiff y defnydd o'r cyfarpar pelydr-X ei reoli, gan ddarparu trywydd archwilio llawer cryfach o ran defnydd o belydr-x a'r lefelau arbelydriad sydd ynghlwm â hynny. Yn ogystal â hyn, crëwyd modiwl hyfforddiant DEXA fel y gellir rhoi hyfforddiant mewnol am ddim yn awr ar adeg sy'n gyfleus i'r Brifysgol, yn hytrach nag unwaith y flwyddyn fel oedd y darparwr cyfarpar yn ei gynnig ynghynt.

YMBELYDREDD, NWY RADON

Mae Prifysgol Bangor ymysg nifer bychan o brifysgolion yn y wlad sydd wedi cynnal arolwg radon llawn. Roedd cam cyntaf yr arolwg radon ar ystad y Brifysgol yn cynnwys gosod monitorau radon ar nifer o safleoedd ym mis Mai 2009. Dynododd gasgliadau'r arolwg bod angen ymchwilio ymhellach mewn nifer fechan o leoliadau.

Gosodwyd monitorau radon ychwanegol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2009 a chafwyd y canlyniadau ym mis Mawrth 2010. Cyflwynir adroddiad terfynol i'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch ym mis Mehefin 2010 ond mae'r canlyniadau rhagarweiniol, a chynghor gan y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn awgrymu y bydd angen rhywfaint o waith adfer ac arolygon pellach fel rhan o broses fonitro.

Hyd yma, mae **111** o fonitorau radon wedi eu gosod, a dim ond 4 sydd wedi dangos mesuriadau sy'n uwch na'r lefel weithredu. Rydym wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am y lleoliadau hyn.

YMBELYDREDD, FFYNHONNELL AGORED

Adolygwyd y llawlyfr ymbelydredd [ffynhonnell agored] mewn ymateb i gynnydd yn nifer y bobl sy'n gweithio gyda ffynonellau agored o ymbelydredd, llawer ohonynt yn fyfyrwyr tramor. Gobeithir y bydd y llawlyfr diwygiedig yn haws i'w ddefnyddio ac yn ymdrin â'r rhwystr ieithyddol ar yr un pryd.

LABORDAI A DIOGELWCH CEMEGOL

Mae'n debyg mai gwaith labordy yw'r gwaith mwyaf peryglus yn y Brifysgol, yn enwedig yn sgil y cynnydd diweddar mewn myfyrwyr tramor sy'n cael trafferthion ieithyddol ac sydd efallai'n dod o leoedd lle mae arferion rheoli iechyd a diogelwch labordai a chemegau yn wahanol i'r DU.

Mewn ymateb i hyn, cynhyrchodd yr adran ar y cyd a'r Coleg Gwyddorau Naturiol nifer o daflenni gwybodaeth yn ymwneud ag agweddau penodol ar weithio mewn labordy a chyda chemegion. Er enghraifft:

- Diogelwch yn y labordy – defnyddio cypyrddau gwyntyllu yn ddiogel.
- Diogelwch yn y labordy – defnyddio ffyrnau aerglos yn ddiogel.
- Diogelwch cemegol – nodi peryglon cemegol.
- Diogelwch cemegol - defnyddio a thrin cemegau yn ddiogel.
- Diogelwch cemegol - defnyddio a gwaredu cemegau yn ddiogel.

Cynhyrchwyd hefyd ffurflen asesu COSHH ddiwygiedig, sydd wedi ei chysylltu â chyflwyniad ar-lein sy'n amlinellu'r math o wybodaeth y dylid ei chynnwys ym mhob cam o'r asesiad. Gobeithir y bydd ffurf ddarluniadol a hawdd ei defnyddio'r taflenni gwybodaeth a'r ffurflen asesu COSHH yn helpu staff a myfyrwyr ddeall sut i weithio'n ddiogel mewn labordy a chyda cemegau, gan leihau'r risg o ddamweiniau/digwyddiadau.

BIOLEGOL

Dechreuwyd archwiliad yn 2009 ar reoli defnydd o sylweddau biolegol peryglus yn y Coleg Gwyddorau Naturiol, yr Ysgol Cemeg, yr Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer. Yn anffodus, daeth y casgliadau cychwynnol â diffyg hyfforddiant i'r amlwg ac felly gohiriwyd yr archwiliad er mwyn gallu canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r diffyg hwnnw.

Datblygwyd pecyn hyfforddiant newydd ar sylweddau biolegol peryglus ac fe'i cyflwynwyd i'r staff ddechrau 2010. Caiff ei ddefnyddio gyda'r staff a myfyrwyr ôl-radd newydd yn yr hydref 2010.

HYBU IECHYD

Parhaodd y gwaith o wella iechyd a lles y staff yn 2009 gyda nifer o ymgyrchoedd iechyd wedi eu hanelu at wella ffitrwydd corfforol a meddyliol y staff. Ceir rhagor o fanylion am y gwaith yn **Atodiad A4**.

CEFNOGAETH ANABLEDD

Ers 2007, mae'r adran wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau anabledd a'r ysgolion academiaidd i baratoi cynlluniau personol dianc mewn argyfwng (PEEP) i sicrhau diogelwch myfyrwyr anabl mewn argyfwng. Oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n datgan anabledd, cododd nifer y PEEPs a gynhaliwyd gan yr adran yn sylweddol yn 2009 a darparwyd cefnogaeth ac addasiadau yn ôl yr angen.

Yn ogystal â hyn, paratowyd canllaw "Teithio o amgylch Bangor" i helpu myfyrwyr a staff sy'n bwriadu dod i astudio neu i weithio ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r canllaw yn amlinellu gwybodaeth benodol y mae pobl gydag anableddau wedi nodi y byddai'n ddefnyddiol cyn dod i'r Brifysgol. Er enghraifft, gwybodaeth am lifftiau, parcio bathodyn glas, darlithfeydd sy'n anaddas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, etc. Dylai bod y ddogfen hon yn ddefnyddiol iawn i bob myfyriwr ac aelod staff newydd gyda nam corfforol neu nam ar y synhwyrau.

DIFFIBRILWYR

Nid oes dim yn well nac achub bywyd, ac ar ddechrau 2010, yn dilyn hyfforddiant CPR ac AFD (diffibriliwr), achubodd staff yng Nghanolfan Chwaraeon Maes Glas fywyd cleient a gafodd drawiad ar y galon yn ystod dosbarth ymarfer corff. Diolch byth, ni fu farw'r cleient ac mae'n gwella erbyn hyn.

Dyma'r ail dro i staff ym Maes Glas achub bywyd rhywun, ac mae hyn yn dangos gwerth cael unedau AFD mewn lleoliadau allweddol a rhoi hyfforddiant cymorth cyntaf mewn argyfwng i staff. Ceir chwe uned AFD yn y Brifysgol i gyd, a disgwylir y caiff rhagor o unedau eu darparu'n fuan. Yn ogystal â hyn, mae pob swyddog cymorth cyntaf yn y Brifysgol wedi ei hyfforddi i ddefnyddio diffibriliwr.

CYFATHREBU

Ym mis Gorffennaf 2009, cyflwynwyd newyddlen iechyd a diogelwch newydd sy'n ymddangos pob pythefnos i wella'r cyfathrebu gyda'r cydlynwyr iechyd a diogelwch. Nod y newyddlen yw creu llwyfan i roi gwybod i'r colegau, yr ysgolion a'r adrannau am newyddion, ffeithiau, gwelliannau a digwyddiadau perthnasol.

YSTADEGAU'R WEFAN

Gwnaed ragor o welliannau i wefan y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn 2009, gan ei wneud yn haws i'w ddefnyddio.

Yn 2009, cafodd gwefan iechyd a diogelwch y Brifysgol (www.hss.bangor.ac.uk):

- 6,896 o ymwelwyr 'unigryw'.
- 11,862 o ymweliadau unigol.
- Edrychwyd ar 40,274 o we dudalennau unigol.
- Roedd 4,612 o'r ymwelwyr i'r wefan yn dod o'r parth "*bangor.ac.uk*".

Dyma'r tudalennau a ymwelwyd â hwy fwyaf:

- A-Z Iechyd a Diogelwch.
- Polisiâu a Chyfarwyddyd.
- Ffurflenni a Dogfennau Iechyd a Diogelwch.
- Iechyd a Lles.

GWAITH ALLANOL

Bu cynrychiolydd o'r adran yn rhan o'r gweithgor a drefnodd un o'r cynadleddau USHA mwyaf llwyddiannus erioed o ran nifer y cyfranogwyr, yn ariannol ac o ran yr ymateb. Cynhaliwyd y gynhadledd yng Nghaerdydd gan Grŵp Iechyd a Diogelwch AU Cymru Gyfan.

Hefyd, rhoddodd yr adran gyflwyniad i'r *Association of UK Higher Education European Officers* (HEURO) a'r corff proffesiynol ar gyfer staff lleoliad a chyflogadwyedd (ASET).

Yn ogystal â hyn, cydweithiodd yr adran gyda Phrifysgol Robert Gordon (Aberdeen) i hyfforddi 47 o'u huwch reolwyr.

A. 2 PWYLLGORAU A GRWPIAU TASG

Pwyllgorau a grwpiau tasg sy'n goruchwyllo safonau, perfformiad a rheolaeth iechyd a diogelwch, y ddau brif gorff yw'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Tasg Gweithredu Iechyd a Diogelwch.

Y PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Wedi i'r pwyllgor gymeradwyo'r system newydd ar gyfer cyflwyno polisiau iechyd a diogelwch yn 2008, mabwysiadwyd y polisiau canlynol yn 2009:

- Rheoli Asbestos.
- Gweithio y tu allan i Orlau Arferol.
- Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau.
- Asesu Risg.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn ac ystyried adroddiadau manwl ar y canlynol:

- Rheolaethau Diogelwch Ymbelydredd.
- Hybu a Chefnogi Iechyd.

Mae'r is-bwyllgorau arbenigol isod yn weithredol ar hyn o bryd i roi cyngor i'r pwyllgor:

- Ymbelydredd.
- Cemegol a biolegol (a'i is-grŵp, Pwyllgor Lleol ar Addasu Geneteg).
- Iechyd, Diogelwch a Lles Myfyrwyr.

Mae gwaith y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'i is-bwyllgorau yn rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, goruchwyllo a llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn cymeradwyo polisiau ar ran Cyngor y Brifysgol a chaiff cofnodion pob cyfarfod eu hystyried gan y Cyngor.

Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Mae'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch yn goruchwyllo ac yn rhoi cyngor ar agweddau ar reoli iechyd a diogelwch ar ran yr Is-ganghellor. Y Cofrestrydd yw cadeirydd y grŵp tasg ac mae'r aelodau'n cynnwys pennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, y Dirprwy Gofrestrydd, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a chyfarwyddwyr Adnoddau Dynol ac Ystadau a Chyfleusterau.

Cyfarfu'r grŵp tasg 10 gwaith yn 2009 ac ystyriodd amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.

Mae gan y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch rhan hanfodol yn y gwaith o arwain y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith yn ogystal â gwelliant parhaus o ran perfformiad ac ansawdd.


A. 3 ADRODDIAD AR SALWCH STAFF

Y PRIF YSTADEGAU

Cyfradd absenoldeb salwch Prifysgol Bangor 2009 fesul aelod staff / yw **6.24** y flwyddyn, sy'n gyfystyr â 2.39% o amser a gollwyd.

Mae cyfradd absenoldeb salwch y Brifysgol yn cymharu â'r gyfradd genedlaethol fel a ganlyn:

National Comparisons (Days lost Per Employee/Year)



Mae'r ffigur uchod o 6.24 diwrnod yn gynydd ar y 4.5 diwrnod a adroddwyd yn 2008. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn bennaf yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r dull a ddefnyddir yn awr i gofnodi ac adrodd am absenoldeb. Mae'r arferion cofnodi newydd yn golygu bod y Brifysgol yn defnyddio arferion adrodd cenedlaethol.

DATA GWERTHFAWR

Mae'r adran yn rhoi mwy o bwyslais ar absenoldeb salwch gyda thystysgrif feddygol o ran achosion salwch ac effaith ar yr unigolyn, gan nad ydynt yn cael eu drysu gan eglurhad anfeddygol. Mae deall a delio ag absenoldeb tymor hir yn un o brif amcanion yr adran.

Er dibenion tâl salwch, mae tystysgrifau meddygol (llythyr meddyg) yn ofynnol ar gyfer absenoldeb sy'n para mwy na 7 diwrnod calendr. Pan gyflwynir tystysgrif feddygol am absenoldeb sy'n para llai na 7 diwrnod calendr, caiff ei gofnodi i gadarnhau bod diagnosis meddygol wedi ei wneud, digwyddodd hyn mewn 36% o'r achosion. Cadarnhawyd 25% o bob absenoldeb salwch trwy dystysgrifau meddygol ac roedd 75% wedi eu hunan ardystio. O'r 25% (378 cyfnod) absenoldeb salwch gyda thystysgrif feddygol, roedd 98 ohonynt (111 yn 2008) am 20 diwrnod neu fwy ac roedd 280 ohonynt (260 yn 2008) am lai nag 20 diwrnod.

RHESYMAU DROS ABSENOLDEB

Mae'r tabl isod yn dangos y rhesymau a roddwyd dros salwch gyda thystysgrif feddygol a salwch hunan ardystiedig yn 2008/2009.


Rhesymau ardystiedig am gyfnodau o absenoldeb salwch

RHESWM DROS SALWCH 2008/2009	HUNAN ARDYSTIEDIG CYFNODAU LLAI NAG 8 DIWRNOD GWAITH		CYFNODAU GYDA THYSTYSGRIF FEDDYGOL LAI NAG 20 DIWRNOD GWAITH		CYFNODAU GYDA THYSTYSGRIF FEDDYGOL MWY NAG 20 DIWRNOD GWAITH	
	2008	2009	2008	2009	2008	2009
Salwch cyhyrsgerberbydol cyffredinol (gan gynnwys torri esgyrn, trwsio hernia, cyflyrau arthritig, ysigo braich neu goes neu straenio cyhyr)	57	91	46	32	42	20
Seicolegol (gan gynnwys problemau dibyniaeth, pryder ac iselder)	18	36	37	30	24	29
Problemau cefn (gan gynnwys poen gwddf, gwaelod y cefn a sciatica)	31	46	12	16	10	9
Tiwmor (gan gynnwys tiwmorau diniwed a malaen)	0	0	3	1	4	3
Genitowrinol/Gynaecolegol (yn cynnwys cerrig yn yr arennau a hysterectomi)	29	31	6	8	6	11
Cardiofasgwlaidd (yn cynnwys pwysedd gwaed uchel, strôc, clefyd y galon, angina)	5	16	4	6	4	3
Cysylltiedig â beichiogrwydd (yn cynnwys pwysedd gwaed uchel neu isel a theimlo'n ddifrifol o gyfogyd)	7	13	4	12	1	0
Gastroberfeddol (dolur rhydd, chwydu)	253	244	21	25	3	3
Anwydau a fflw	349	335	10	23	0	0
Cur pen a migrên	86	78	3	0	1	1
Cyflyrau amrywiol						
Resbiradol	50	60	41	47	3	4
Anhwyldeirau'r gwaed	1	0	1	2	0	0
Clust, trwyn, gwddf, dannedd, llygaid	81	105	28	24	1	2
Problemau croen	6	10	7	7	1	2
Endocrinaidd/chwarennol	7	5	3	6	5	2
Clefyd heintus	8	6	11	10	0	2
Asthma	6	3	0	0	0	0
Rhesymau penodol eraill	61	55	23	31	6	7

Mae'r uchod yn cynnig gwybodaeth am gyfnodau afiechyd ar wahân ac fe'u rhennir yn amseroedd dangosol allweddol fesul cyfnod.

HYD Y SALWCH

Hyd Absenoldeb Salwch Tymor Hir: Ionawr - Rhagfyr 2007/2008/2009



Months off work

Mae ymdrechion yr ymarferydd iechyd galwedigaethol a'r adran Adnoddau Dynol, ynghyd â chefnogaeth yr ysgolion a'r adrannau, yn talu ar eu canfed trwy sicrhau bod achosion yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl, a chan sicrhau bod iechyd yr unigolyn yn parhau i fod yn brif ganolbwynt. Ceir rhagor o wybodaeth am ofalu am bobl gyda salwch tymor hir yn yr adran nesaf.


A. 4 ADRODDIAD AR IECHYD STAFF

Mae agenda iechyd 2009/2010 wedi dilyn amserlen o ddigwyddiadau a gynlluniwyd sy'n ymwneud â'r canlynol:


- Gofal i bobl sy'n analluog i weithio oherwydd afiechyd tymor hir.
- Goruchwyliaeth iechyd i sicrhau nad yw risgiau posibl yn niweidio iechyd grwpiau galwedigaethol penodol.
- Archwiliadau iechyd unigol.
- Hyfforddiant i alluogi eraill i gefnogi iechyd.
- Cefnogi merched beichiog a mamau newydd.

GOFAL I BOBL SY'N ANALLUOG I WEITHIO OHERWYDD AFIECHYD TYMOR HIR

Mae afiechyd tymor hir yn digwydd pan fo unigolyn angen mwy nag 20 diwrnod o'i waith. Yn y cyfnod hwn, caiff llythyr cyswllt ei anfon gyda chymorth ymarferol i ddilyn, yn ôl yr angen, i helpu'r unigolyn ddychwelyd i'w waith yn llwyddiannus. Dyma rai enghreifftiau: newid dyletswyddau neu oriau gwaith yr unigolyn dros dro. Mae dychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus yn golygu nad yw'r unigolyn yn absennol o'i waith am yr un rheswm yn ystod y 6 mis sy'n dilyn.



Mae'r amserlen dychwelyd i'r gwaith wedi ei chwblhau cyn pen 12 wythnos gan fwyaf (Siart 1)¹ a dychwelodd y rhan fwyaf o'r achosion salwch tymor hir i'r gwaith yn llwyddiannus (Siart 2)



¹ Mae nifer yr achosion yn siart 1 yn cynnwys cyfnodau di-dor o absenoldeb absence rhwng 2008/2009 a 2009/2010

Ar 6 Ebrill 2010 newidiwyd enw nodiadau salwch i 'nodiadau ffitrwydd'. Daw'r term newydd hwn yn sgil argymhellion gan y Fonesig Carole Black² ac mae'n galluogi meddygon teulu i roi cyngor penodol i gefnogi dychweliad unigolyn i'w waith ar ôl absenoldeb salwch tymor hir.

Nid yw'r newidiadau hyn yn ymgais i wneud i bobl ddod yn ôl i'w gwaith os nad ydynt yn barod. Gall llawer o bobl gyda chyflyrau iechyd, gyda chefnogaeth sylfaenol gan eu cyflogwr, weithio wrth ddod dros eu cyflwr ac mae hyn yn gallu eu helpu, gan fod gwaith yn gallu helpu pobl i adfer eu hiechyd.

Os yw gweithiwr yn rhy sâl i weithio, bydd y meddyg teulu yn nodi hynny fel y byddai'n ei wneud gyda'r nodyn salwch o'r blaen.

Byddwn yn adrodd ar effaith y 'nodyn ffitrwydd' yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Statement of fitness for work
For social security or Statutory Sick Pay

Med3 04/09

Patient's name

Mr, Mrs, Miss, Ms

I assessed your case on

/ /

and, because of these condition(s):

I advise you that:

☐ you are not fit for work.
☐ you may be fit for work taking account of the following advice:

Comments, including functional effects of your condition(s):

If available, and with your employer's agreement, you may benefit from:
☐ a phased return to work.
☐ altered hours.
☐ amended duties.
☐ workplace adaptations.

This will be the case for

or from

/ /

to

/ /

I will/will not need to assess your fitness for work again at the end of this period.
(Please delete as applicable)

Doctor's signature

Date of statement

/ /

Doctor's address

GORUCHWYLIO IECHYD

Er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith yn niweidiol i iechyd ac i edrych am salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith, cyflwynwyd rhaglen i oruchwylio iechyd staff a nodwyd mewn asesiadau risg yn y meysydd canlynol: cemeg, uned argraffu, tŷ anifeiliaid, llafur uniongyrchol a staff tir a gerddi Ystadau a Chyfleusterau. Mae hyn yn gymorth i adnabod pobl sydd angen ymchwil meddygol pellach ac i gadarnhau neu wadu bod rheolaethau i atal salwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn effeithiol.

Mae goruchwylio iechyd yn cynnwys hunanadrodd am symptomau, monitro tystysgrifau meddygol, cyfweliadau iechyd ac archwiliadau iechyd a allai gynnwys archwilio'r croen, y clyw, y golwg a'r system resbiradol. Yn ystod 2009, cafodd weithiwr ddiagnosis o "gyflwr y bysedd gwyn" – salwch sy'n rhaid adrodd amdano ac arweiniodd hynny at adolygu'r asesiadau risg ar gyfer staff y tir a'r gerddi. Daeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r canlyniad bod y safonau oedd ar waith i warchod y staff yn ddigonol ac mai digwyddiad digyswllt oedd hwn.

ASESIADAU IECHYD CYN CYFLOGI

Yn 2009, cynhaliwyd 215 o asesiadau cyn cyflogi ar ffurf holiaduron iechyd a anfonir yn ôl at yr ymarferydd iechyd galwedigaethol wedi i'r swydd gael ei chynnig ond cyn i'r unigolyn ddechrau gweithio. Y nod yw darganfod a yw'r ymgeisydd yn ffit i weithio. Yn 2009, roedd pawb a gyflwynodd holiadur iechyd yn ffit i weithio. Mae hyn wedi bod yn wir ers mis Gorffennaf 2007 ac mae hyn felly yn codi cwestiynau am werth yr ymarfer.

O fis Hydref eleni yn ôl pob golwg, bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd neu'n atal cyflogwyr rhag gofyn i ymgeiswyr am eu hiechyd ac a oes ganddynt anabledd. Mewn canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar,

² Black, C. (2008) 'Working for a Healthier Tomorrow: Review of the Health of Britain's Working Age Population' TSO.


mae meddygon iechyd galwedigaethol AU yn cynghori y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r holiadur erbyn mis Hydref 2010.

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau proffesiynol gan feddygon iechyd galwedigaethol, bydd y defnydd o ffurflenni cyn cyflogi yn dod i ben ddiwedd mis Medi 2010.

ARCHWILIADAU IECHYD UNIGOL

Y ffordd fwyaf cadarnhaol o hybu iechyd yn y gwaith yw trwy raglen o archwiliadau iechyd. Dechreuodd y rhaglen yn 2007 ac erbyn diwedd 2009 roedd 416 aelodau staff wedi cael eu gweld. Mae sail resymegol y fenter hon yn syml iawn. Oherwydd ein bod yn treulio rhan fawr o'n bywydau yn y gwaith, mae'n gwneud synnwyr defnyddio rhywfaint o'r amser hwn i fuddsoddi yn ein hiechyd.

Mae pob asesiad iechyd yn cynnwys cyfweiliad cyfrinachol gyda'r ymarferydd iechyd galwedigaethol sy'n para tri chwarter awr. Mae'r casgliadau yn rhoi gwybod i unigolion am unrhyw ffactorau risg i'w hiechyd sydd angen sylw er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o salwch yn y dyfodol.



Mae'r unigolion wedyn yn penderfynu drostynt eu hunain a ydynt am wneud ymdrech i fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau risg neu ymuno â grŵp '*Llwybrau i iechyd*' gyda phobl eraill ag anghenion tebyg.

Derbyniodd y dull hwn a'r gweithgareddau hybu iechyd ategol wobwr genedlaethol am ragoriaeth, a chafodd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a Chyngor y Brifysgol eu hysbysu o'r llwyddiant ym mis Chwefror/Mawrth 2010.

TABL 1

Tystiolaeth: deall difrifoldeb ffactorau risg iechyd

Ffactor risg	Dim risg	Risg cymedrol	Risg uchel
Dod i gysylltiad â mwg tybaco ³	Pobl sydd ddim yn ysmygu ac nad ydynt yn dod i gysylltiad â mwg tybaco ail-law yn y gwaith	Pobl sydd ddim yn ysmygu ac sy'n dod i gysylltiad â mwg tybaco ail-law wrth fynd i mewn i'r gwaith gan bobl yn ysmygu yn y drws.	Pobl sydd ddim yn ysmygu ac sy'n dod i gysylltiad â mwg tybaco ail-law bod dydd o fwg yn dod i mewn i'w lle gwaith trwy ddrysau a/neu ffenestri. Caiff pawb sy'n ysmygu eu hystyried yn risg uchel
Lefel colesterol ⁴	Dan 5 mmol/l	5 – 6.5 mmol/l	Dros 6.5 mmol/l
Sgôr mynegai mas y corff ⁵	18.5 -24.9	25-29.9	Dros 30
Ymarfer corff ⁶	Hanner awr, 5 gwaith yr wythnos	Hanner awr, 3 gwaith yr wythnos	Dim ymarfer corff
Canlyniad y cerdyn sgôr strae ⁷	30-44	45-59	60
Alcohol ⁸	Pobl sydd ddim yn yfed neu rai sy'n yfed yn anaml neu rai sy'n yfed o fewn y nifer uchaf o unedau alcohol a argymhellir	Yn yfed mwy na'r nifer uchaf o unedau alcohol a argymhellir os nad ydynt yn gweithio'r diwrnod wedyn	Yn yfed mwy na'r nifer uchaf o unedau alcohol a argymhellir yn rheolaidd os ydynt yn gweithio'r diwrnod wedyn
Pwysedd gwaed ⁹	100/60 – 139/89	140/90 – 159/99	Mwy na 160/100

HYFFORDDIANT I ALLUOGI ERAILL I GEFNOGI IECHYD

Yn 2009, cynhaliwyd cyfres o weithdai chwarterol ar reoli salwch, a gynlluniwyd gan yr ymarferydd iechyd galwedigaethol ar y cyd â swyddogion Adnoddau Dynol i reolwyr. Defnyddiodd y gweithdai hyn brofiadau'r staff oedd wedi ymateb i arolwg ynglŷn â'r gefnogaeth a gawsant yn ystod absenoldeb salwch tymor hir¹⁰. Nod y gweithdai oedd rhoi fframwaith i reolwyr i gefnogi gweithwyr i adennill eu hiechyd a dod yn ôl i'r gwaith.

Arweiniodd Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2009 at archwiliad o'r gefnogaeth sydd ar gael i staff gydag anabledd wedi'i ddatgan¹¹. Amlygwyd y ffaith bod angen i gydweithwyr roi cefnogaeth fwy addas i staff gyda

³ Report of the Scientific Committee on Tobacco & Health (1998) www.archive.officialdocuments.co.uk/documentation/doh/tobacco

⁴ National Institute for Clinical Excellence (2008) *Clinical Guidance* www.nice.org.uk/guidance/67

⁵ National Institute for Clinical Excellence (2006) *Clinical Guidance No 43* www.nice.org.uk/guidance/43

⁶ National Institute for Clinical Excellence (2006) *Public Health Guidance No 2* www.nice.org.uk/guidance/PH002

⁷ Bangor University Health and Safety Services (2008) *Stress Score Card* www.hss.bangor.ac.uk/healthandwellbeing

⁸ Department of Health (2009) *Alcohol Advice* www.dh.gov.uk/publichealth/healthimprovement/alcoholadvice

⁹ National Institute for Clinical Excellence (2005) *Clinical Guidance 34* www.nice.org.uk/guidance/34

¹⁰ Patton, J. (2008) 'A review of the effectiveness of support provided during and following long term absence' <http://hss.bangor.ac.uk/documents/LTAManagementReviewReport2008.pdf>

¹¹ Patton, J. (2010) 'A review of support offered to staff with a declared disability' <http://hss.bangor.ac.uk/documents/Reviewofsupportofferedstaffdisability2009.pdf>

¹¹ Patton, J. (2010) 'A review of support offered to staff with a declared disability' <http://hss.bangor.ac.uk/documents/Reviewofsupportofferedstaffdisability2009.pdf>

phroblemau iechyd meddwl. Gwnaed hyn trwy weithdy peilot a drefnwyd gan yr ymarferydd iechyd meddwl ar y cyd â chynrychiolydd staff a chynghorwr iechyd meddwl o Wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr.

Rhoddodd yr ymarferydd iechyd galwedigaethol hefyd hyfforddiant i griw'r Tywysog Madog i ddefnyddio diffibriliwr allanol (AED) a rhoddwyd sesiynau diweddarau i'r staff diogelwch a staff Maes Glas a lwyddodd i ddefnyddio'r AED i adfywio dyn.

Cyflwr sy'n bygwth bywyd yw anaffylacsis a achosir gan adwaith annormal i alergenau yn mynd i'r corff trwy frechiad (e.e. pigiad), anadlu (e.e. llwch), amlyncu (e.e. bwyd/diod) neu gyswllt â'r croen. Caiff *epipen* yn cynnwys cyffur sy'n gwrthdroi adweithiau sy'n bygwth bywyd ei roi ar bresgripsiwn i bobl pan fo'n hysbys eu bod yn adweithio'n ddifrifol. Oherwydd hyn, cyflwynodd yr ymarferydd iechyd galwedigaethol raglen hyfforddi i staff yn yr Ysgol Addysg ac i wardeiniaid y neuaddau preswyl.

Er mwyn lleihau a rheoli ymlediad fflw pandemig, rhoddodd yr ymarferydd iechyd galwedigaethol hyfforddiant i'r staff diogelwch, glanhau ac arlwygo a oedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am yr arwyddion a'r camau i'w cymryd os byddent yn dal y fflw neu'n dod i gysylltiad â rhywun yn dioddef o'r fflw. Archwiliwyd canlyniadau'r camau a gymerwyd gan y Brifysgol i leihau a rheoli ymlediad fflw pandemig i gefnogi ymdrechion yn y dyfodol¹².

MERCHED BEICHIOG A MAMAU NEWYDD

Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn parhau i gefnogi merched beichiog a mamau newydd. Unwaith y cawn wybod am ferch feichiog, caiff ymweliad lles ac asesiad ei gynnal ac yna ei ailadrodd pob 6 wythnos. Yna, cysylltir â'r fam newydd cyn iddi ddychwelyd i'r gwaith i sicrhau bod yr holl gyfleusterau ar gael (yn cynnwys oergell i gadw llaeth o'r fron, os oes angen hynny). Yna cynhelir un cyswllt lles olaf 6 wythnos ar ôl i'r fam ddychwelyd i'r gwaith i sicrhau ei bod yn gyffyrddus yn ei gwaith.

Yn 2009, roedd 52 o ferched yn disgwyl plentyn a dychwelodd 28 i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth. Rhoddwyd benthyg un oergell ar gyfer llefrith o'r fron a gwnaed nifer o addasiadau yn y gweithle (megis cynalydion meingefn, caniatâd i weithio rhywfaint o adref ac addasu dyletswyddau) i gefnogi iechyd a lles yr unigolyn.


Mae'r adborth gan famau newydd a merched beichiog wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'n amlwg eu bod yn gwerthfawrogi'r cyswllt a'r gefnogaeth ymarferol a roddir.

Casglwyd y data ar gyfer yr ystadegau blynyddol am ddamweiniau¹³ a digwyddiadau¹⁴ o'r ffurflenni adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau a dderbyniwyd gan Wasanaethau Iechyd a Diogelwch yn 2009.

STAFF A MYFYRWYR

Yn 2009, adroddwyd am gyfanswm o **84** o ddamweiniau, ac er bod y nifer ychydig yn llai na'r 87 damwain a adroddwyd amdanynt yn 2008, mae'n adlewyrchu'r lleihad yn nifer y bobl 'mewn perygl' yn 2009. Ystyriwyd bod 15,153 o staff a myfyrwyr 'mewn perygl' yn 2008 a gostyngodd y ffigur hwnnw i 13,055 yn 2009. Fodd bynnag, fel y mae'r siart isod yn dangos, mae nifer y damweiniau wedi gostwng ers 2000.

Cyfanswm damweiniau Prifysgol Bangor 2000-2009



Dim ond damweiniau a digwyddiadau a achosodd anaf sydd wedi eu cynnwys yn y graff a'r ffigurau uchod. Derbyniwyd y ffurflenni adrodd a ganlyn hefyd:

- ☐ 58 - anafiadau wrth gymryd rhan mewn chwaraeon.
- ☐ 27 - amodau a allai fod yn beryglus / damweiniau a allai fod wedi digwydd / arferion peryglus.
- ☐ 6 - digwyddiadau meddygol, e.e. llewygu.

CYMARYDDION CENEDLAETHOL

Er mwyn cymharu gyda chyfraddau damweiniau ystadegau cenedlaethol, cyfrifir cyfanswm y damweiniau a gofnodwyd ar sail '1,000 o bobl mewn perygl'. Mae'r cyfrifiad hwn yn golygu rhannu cyfanswm y staff a'r myfyrwyr gyda chyfanswm y damweiniau a arweiniodd at anaf personol.


¹³ Yn y cyd-destun hwn, diffinnir 'damwain' fel digwyddiad annisgwyl a arweiniodd at anaf personol o ryw fath.

¹⁴ Yn y cyd-destun hwn, diffinnir 'digwyddiad' fel digwyddiad na arweiniodd at anaf ond a achosodd ddifrod neu ddigwyddiad a allai fod wedi achosi difrod neu niwed.

STAFF

Cofnodwyd cyfanswm o **32.2** o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau staff yn 2009, ac er bod hynny'n fwy na'r 27.5 a gofnodwyd yn 2008, mae'n debyg y gellir ei briodoli i wellhad yn y broses o adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau a chynnydd yn y damweiniau a adroddir amdanynt. Mae'r tuedd ar i fyny yn rhy isel i fod yn arwyddocaol yn ystadegol ond er hynny caiff ei fonitro yn 2010.


Cyfraddau damweiniau cenedlaethol a Phrifysgol Bangor yn ôl cyfartaledd o 1000 o **staff** 'mewn perygl'



MYFYRWYR

Gostyngodd nifer y damweiniau i fyfyrwyr o 1.6 damwain i bob 1,000 o fyfyrwyr yn 2008 i **1.5** yn 2009, ac er ei fod yn ostyngiad bychan, mae'n braf ei weld gan fod nifer y myfyrwyr wedi cynyddu eto yn 2009 i 13,055 ac mae'r gyfradd ddamweiniau yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd o 2.3 damwain i bob 1,000 o fyfyrwyr.

Cyfraddau damweiniau cenedlaethol a Phrifysgol Bangor yn ôl cyfartaledd o 1000 o **fyfyrwyr** 'mewn perygl'




DAMWEINIAU ADRODDADWY¹⁵


Cyfanswm y damweiniau adroddadwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2009 oedd **12**; 10 i aelodau staff a 2 i fyfyrwyr. Er ei fod yn gynnydd ar y 7 damwain a digwyddiad a adroddwyd arnynt yn 2008, mae'n rhaid nodi na chafodd unrhyw fyfyrwr ddamwain na digwyddiad am y tro cyntaf ers 2005.

At bwrpasau ystadegol darperir y cymarebau damweiniau/digwyddiadau fel cyfrifiad o 1,000 o unigolion (staff, myfyrwyr) mewn perygl. Defnyddir cyfartaledd treigl dros 5 mlynedd i lyfnhau unrhyw amrywiadau oherwydd dylanwad hapddigwyddiadau ar samplau bychan.

Damweiniau a digwyddiadau adroddadwy (RIDDOR) i **staff** fesul 1,000 'mewn perygl'
(cyfartaledd treigl dros 5 mlynedd)



Damweiniau a digwyddiadau adroddadwy (RIDDOR) i **fyfyrwyr** fesul 1,000 'mewn perygl' (cyfartaledd treigl dros 5 mlynedd)



¹⁵ Mae damweiniau adroddadwy'n cyfeirio at ddamweiniau a digwyddiadau sy'n rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan ofnion y Rheoliadau adrodd ar anafiadau, heintiau a digwyddiadau peryglus (RIDDOR). Mae damweiniau a digwyddiadau o'r fath fel rheol yn golygu bod rhywun wedi ei anafu, yn gorfod cael amser o'r gwaith o ganlyniad i ddamwain neu heintiau a chyflyrau'n gysylltiedig â'r gwaith.

Digwyddodd y **10** damwain/digwyddiad staff adroddadwy o ganlyniad i'r canlynol:

- Coes yn cael ei thorri ar ôl syrthio i lawr grisiau mewnol.
- Llaw yn cael ei briwio a'i chleisio ar ôl cael ei dal mewn peiriant.
- Arddwrn yn cael ei thorri ar ôl i aelod staff gael ei fwrw i'r llawr gan y gwynt ym Mharc y Coleg yn ystod tywydd garw.
- Cyhyrau'r cefn a'r gwddf yn cael eu tynnu wrth agor drws anystwyth a arweiniodd at fwy na 3 diwrnod o'r gwaith.
- Anafiadau i'r wyneb oedd angen llawdriniaeth o ganlyniad i syrthio i lawr grisiau allanol.
- Troed yn cael ei briwio a'i chleisio ar ôl llithro ar ramp allanol a arweiniodd at fwy na 3 diwrnod o'r gwaith.
- Pengliniau yn cael eu briwio a'u cleisio ar ôl baglu dros gebl sugnwr llwch a arweiniodd at fwy na 3 diwrnod o'r gwaith.
- Anafiadau i'r pengliniau a'r cefn ar ôl baglu dros garped rhydd a arweiniodd at fwy na 3 diwrnod o'r gwaith.
- Coes yn cael ei llosgi gyda dŵr berwedig a arweiniodd at fwy na 3 diwrnod o'r gwaith.
- Cefn yn cael ei droi wrth ymestyn i gyrraedd silff a arweiniodd at fwy na 3 diwrnod o'r gwaith.



Digwyddodd **2** ddamwain adroddadwy i **ymwelwyr** o ganlyniad i'r canlynol:

- Arddwrn yn cael ei thorri o ganlyniad i faglu dros ymyl llai na 1cm o uchder ar waelod ramp.
- Ymwelydd yn llithro ar lawr gwlyb a arweiniodd at ymweliad â'r ysbyty a diagnosis o gleisio'n unig.

Cafwyd un achos o gyflwr meddygol adroddadwy yn 2009, sef "cyflwr y bysedd gwyn" i aelod o'r staff maniwal. Ymchwiliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r achos.

ACHOSION DAMWEINIAU

Mewn blynyddoedd diweddar un o brif achosion damweiniau yn y Brifysgol fu pobl yn llithro, yn baglu ac yn syrthio, ac mae hyn yn wir hefyd am brifysgolion eraill. Mae adroddiad blynyddol UCEA am 2009 yn nodi bod llithro, baglu a syrthio yn parhau i fod yn achos mawr o anafu yn y sector AU. Llithro, baglu a syrthio oedd 30% o'r damweiniau a ddigwyddodd yn 2008 ond cynyddodd y canran yn sylweddol yn 2009 i 42%. Yn ogystal â hyn, bu cynnydd yn 2009 mewn digwyddiadau trin â llaw a 3 achos o ymosod ar staff diogelwch y Brifysgol, sy'n destun pryder.




A. 6 ADRODDIAD TAN AC ACHOSION LARYMAU TAN

Cyflwynir adroddiad tanau a larymau blynyddol y Brifysgol fel cofnod cymharol dros gyfnod o flynyddoedd ac yn unol â meini prawf a osodwyd gan Gymdeithas Iechyd a Diogelwch y Prifysgolion (USHA). Yn 2009 roedd y rhain yn seiliedig ar y digwyddiadau a adroddwyd gan **93** o sefydliadau addysg uwch ar draws y Deyrnas Unedig.

Mewn rhai achosion mae'n anodd cymharu'n uniongyrchol rhwng ystadegau cenedlaethol a'r rhai a gynhyrchir ym Mhrifysgol Bangor, ond maent yn rhoi syniad da o berfformiad y Brifysgol.

Bangor University **Annual Fire Alarm** Activation Totals & Trending



Mae data ystadegol yn dynodi tueddiad tuag at 'lefelu' yn nifer yr achosion o larymau tân yn canu. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn ar y cyd â'r cynnydd cyson yng nghyfanswm y synwryddion mwg sydd wedi eu gosod yn adeiladau'r Brifysgol. Daw'r cynnydd yn nifer y synwryddion mwg a'r systemau larwm tân newydd yn uniongyrchol o ganlyniad i fwy o fuddsoddiad ariannol sydd wedi ei anelu at leihau'r perygl o dân.

Dyma achosion larymau tân yn canu:

Achos larymau tân yn canu ym Mhrifysgol Bangor	2009	2008	2007	2006	2005	2004	2003
Larymau ffug oherwydd llwch etc	24	19	15	15	18	6	13
Larymau ffug oherwydd systemau (neu namau ar y system)	73	67	70	78	124	74	59
Larymau'n canu oherwydd ager neu nwyon coginio etc.	90	100	99	85	144	90	75
Unigolion yn canu'r larwm tân yn faleisus	9	22	13	0	34	20	18
Canu'r larwm gyda 'bwriadau da'	11	18	1	11	6	4	7
Tanau go iawn (pa un a ddefnyddiwyd teclyn diffodd tân ai peidio)	6	4	5	7	3	9	8
Digwyddiadau eraill	5	8	3	0	0	2	1
CYFANSWM:	218	238	206	196	329	205	181

Yn dilyn cynnydd yn yr achosion o larymau tân yn canu mewn neuaddau yn 2008, bu gostwng yn y nifer yn 2009 i **126** sy'n adlewyrchu gwaith caled y swyddfa neuaddau a'r gwasanaeth tân i addysgu myfyrwyr am ddiogelwch tân. Mae'n braf iawn gweld hyn o ystyried y cynnydd yn nifer y lloffttydd astudio yn y Brifysgol. Yn anffodus, bu cynnydd sylweddol yn 2009 yn yr achosion o larymau tân yn canu mewn adeiladau academiaidd ac ategol o 79 i **92**, er y gellid priodoli hynny i welliannau yn y system o gofnodi data'n ymwneud â tân:

Nifer yr achosion o larymau tân yn canu	2009	2008	2007
Neuaddau preswyl	126	159	141
Adeiladau academiaidd	92	79	65

Mae'r ystadegau yn dangos tuedd o leihad yn y neuaddau preswyl a chynnydd yn yr adeiladau academiaidd ac ategol. Bydd angen ymchwilio ymhellach i hyn.


CYMARYDDION CENEDLAETHOL

Oherwydd gofynion adrodd USHA dim ond ar gyfer "neuaddau preswyl" a reolir gan brifysgolion y mae'n bosib cael cymaryddion cenedlaethol mwy trylwyr.

- Llety preswyl

Cynhyrchir ystadegau tân mewn llety preswyl yn genedlaethol (sector AU) ac ym Mhrifysgol Bangor fesul 1000 o loffttydd astudio¹⁶.


Fire Alarm Activations per 1,000 Study Bedrooms



Cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o larymau tân yn canu fesul 1,000 llofft astudio yn 2009 i **46**, sy'n hollol wahanol i weddill y sector AU lle mae'r tuedd ar i fyny ers 2001.

¹⁶ Yn 2009, roedd oddeutu 2,728 o loffttydd astudio ym Mhrifysgol Bangor.

Fires per 1,000 Study Bedrooms



Sylwch: Mae'r ystadegau am danau yn rhy isel i fod o unrhyw bwys mawr, ond yn ddelfrydol ni fyddai unrhyw danau'n digwydd yn y Brifysgol.

- Cyfraddau larymau'n canu

Ceir tua **4,862** o larymau tân a mwg yn y neuaddau preswyl ym Mangor. Wrth gymharu'r nifer hwn â nifer yr achosion o larwm tân yn canu pan nad oes tân, ceir cymhareb o **2.5** o 'achosion ffug' fesul 100 o larymau. **4.6** oedd y ffigur hwn yn 2008 sy'n golygu bod cyfraddau larymau'n canu yn y Brifysgol yn llawer is na chyfartaledd y sector yn 2009, sef 4.8 fesul 100 o larymau.

- Gwybodaeth arall

Cynyddodd nifer y tanau go iawn ym Mhrifysgol Bangor i **6** yn 2009. Roedd 3 yn ganlyniad i losgi bwriadol ac er nad anafwyd neb, arweiniodd hyn at gyhoeddusrwydd negyddol yn y wasg oedd yn anffodus iawn o ystyried y datblygiadau cadarnhaol eraill a nodwyd uchod a'r gwelliannau y mae Prifysgol Bangor wedi eu gwneud o gymharu â gweddill y sector AU.

Dyma fanylion y tanau a ddigwyddodd yn 2009:

1. 3 tân mewn cegin o ganlyniad i adael bwyd yn coginio heb ei oruchwylio.
2. 3 tân bwriadol: un achos o roi *porta-cabin* ar dân a dau achos o roi biniau gwastraff allanol ar dân.

Ar draws y sector prifysgol yn gyffredinol¹⁷:

- Adroddwyd am 761¹⁸ o danau mewn llety preswyl. Roedd 490 o'r rhain mewn ceginau ac anafwyd 10¹⁹ o bobl o ganlyniad.
- Galwyd y Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws y DU i'r prifysgolion yn yr arolwg (93) 6,009 o weithiau i gyd yn ystod 2009.

¹⁷ Yn ôl y 93 sefydliad a gymerodd ran yn arolwg tân cenedlaethol addysg uwch yn 2009.

¹⁸ Caiff tanau eu diffinio fel 'tanau sydd angen diffoddydd neu fwy i'w diffodd'.

¹⁹ Caiff anafiadau eu diffinio fel 'anafiadau sydd angen eu trin mewn ysbyty'.

A. 7 ADRODDIAD AR HYFFORDDIANT STAFF

CRYNODEB AC YSTADEGAU

HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH (DARPARWYD A HWYLUSWYD)						
	2009		2008		2007	
CWRS	Staff	Cyrsiau	Staff	Cyrsiau	Staff	Cyrsiau
Sesiynau cynefino ar iechyd a diogelwch i weithwyr newydd.	150	16	139	11	191	11
Sesiynau cynefino ar iechyd a diogelwch (myfyrwyr) CAHS	Myfyrwyr	1	-	-	-	-
Ymchwilio i ddamweiniau/digwyddiadau	-	-	18	3	-	-
Sesiynau gwybodaeth/hyfforddi i gydlynwyr ieched a diogelwch	36	5	25	2	-	-
Sesiwn rannu gwybodaeth/hyfforddi ½ diwrnod i Ystadau a Chyfleusterau	-	-	68	4	-	-
Sesiwn rannu gwybodaeth lleoliad (myfyrwyr) CAHS	Myfyrwyr	1	-	-	-	-
Defnyddwyr DSE (cyfrifiaduron)	121	8	106	10	187	11
Aseswyr DSE (cyfrifiaduron)	14	2	-	-	-	1
Trefniadau diogelwch tân ac argyfwng tân	59	6	67	9	15	2
Cymorth cyntaf 4 diwrnod	16	5	7	3	11	2
Cwrs diweddarau cymorth cyntaf 2 ddiwrnod	33	8	15	6	29	5
Diwrnod cymorth cyntaf mewn argyfwng	19	7	5	2	-	2
Cymorth cyntaf/defnyddio diffibrilwyr	4	1	9	4	12	3
Sesiwn ddiweddarau cymorth cyntaf/defnyddio diffibrilwyr	35	4	-	-	-	-
Cwrs diogelwch nwy	16	3	-	-	-	-
Codi a chario	44	9	97	7	39	4
Profi teclynau symudol	6	2	18	1	-	-
Pwysedd a straen	8	1	-	-	-	-
Asesu risg	4	1	6	1	35	5
Monitoriaid diogelwch	-	-	-	-	15	2
Sesiynau wedi eu teilwra	Y Ganolfan Rheolaeth Prifysgol Robert Gordon	2	-	-	14	-
Hyfforddiant i wardeiniaid	-	-	27	1	-	-
Gweithio ar uchder	7	1	-	-	-	-
Cyfanswm	572	84	607	64	548	48

Yn 2009, datblygodd y gweithgareddau hyfforddi iechyd a diogelwch ymhellach, gan gynnig amrywiaeth ehangach o fodiwlau hyfforddi gorfodol a gwirfoddol i staff a myfyrwyr y Brifysgol. Yn ogystal, cafodd nifer o fodiwlau hyfforddi eu teilwra i fodloni anghenion y cyfranogwyr yn well ac ychwanegwyd modiwlau at y rhaglen e.e. asesiadau risg lleoliadau, gweithio ar uchder i staff TG.

Mae'r presenoldeb wedi bod yn gyson trwy gydol y flwyddyn ac roedd yr adborth o'r cyrsiau yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol.

CYRSIAU NEWYDD/DIWYGIEDIG A DOGFENNAETH GYSYLLTIEDIG

Gweithio ar uchder: Cynlluniwyd a darparwyd cwrs a llyfryn gwybodaeth ar weithio ar uchder ar y cyd ag Ystadau a Chyfleusterau i ymdrin â gwaith staff y Gwasanaethau Gwybodaeth.

Straen i Gynghorwyr Urddas: Cafodd y cwrs ymwybyddiaeth o straen ei deilwra a'i gyflwyno fel rhan o'r hyfforddiant i'r cynghorwyr urddas yn y gwaith newydd. Caniataodd y cwrs i'r cynghorwyr ddeall effeithiau straen a hefyd nodi a rhoi arweiniad i bobl a allai gael budd o fynd i sesiwn o'r fath.

Diogelwch tân a threfn ymladd tân sylfaenol (staff diogelwch): Cafodd y cyrsiau hyn eu teilwra'n benodol a'u cyflwyno i'r holl staff diogelwch. Ar ein cais ni, daeth y gwasanaeth tân i'r sesiwn gyntaf i adolygu a chymeradwyo lefel a chynnwys y cwrs. Roedd ymateb y gwasanaeth tân yn gadarnhaol iawn.

CYRSIAU ALLANOL

Hyfforddiant diogelwch nwy: Trefnwyd hyfforddiant allanol a darparwyd tair sesiwn hyfforddi.

SESIYNAU RHANNU GWYBODAETH

Cyfarfodydd/sesiynau rhannu gwybodaeth rheolaidd i gydlynwyr adrannol: Cynhaliwyd sesiynau rhannu gwybodaeth i gyd-fynd â'r ddogfennaeth newydd, gan drafod pob elfen cam wrth gam e.e. asesu risg, archwilio, darpariaeth cymorth cyntaf etc. Roedd hyn yn gyfle i adrannau ddod at ei gilydd a datblygu eu systemau gyda'i gilydd, gan alluogi dysgu a throsglwyddo arfer gorau.

DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

Rhagwelir y bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn parhau i ddarparu cyrsiau hyfforddi allweddol. Bydd hyfforddiant pellach a nodwyd trwy wneud dadansoddiad o anghenion hyfforddi'r colegau/adrannau yn arwain at ddarparu mwy o gyrsiau arbenigol a chysiau wedi eu teilwra.

Yn ogystal â hyn, caiff cyrsiau eraill eu datblygu gydag Adnoddau Dynol, yn enwedig cyrsiau'n ymwneud â gwaith iechyd a diogelwch, hyfforddi uwch reolwyr (e.e. rheolwyr colegau, penaethiaid), hyfforddiant rheoli cyffredinol i oruchwylwyr a hyfforddiant ar gyfer swyddogaethau penodol eraill.